



## Polisi Clwb Brecwast

### 1. Nodau ac amcanion:

Nodau ac amcanion ein sesiwn frecwast yw:

- Hyrwyddo pwysigrwydd brecwast ac amlygu ei fanteision
- Darparu'r plant â dechrau da i'r diwrnod ysgol
- Rhoi cyfle i bob plentyn gael mynediad at frecwast sy'n bodloni'r safonau bwyd Blas am Oes
- Hyrwyddo diet iachach trwy annog bwyta'n iachach
- Helpu i godi cyrhaeddiad, canolbwyntio, presenoldeb a phrydlondeb, agweddau at ddysgu a sgiliau personol a chymdeithasol
- Hyrwyddo perthynas gadarnhaol gyda rhieni a gofalwyr.

### 2. Cysylltiadau â chanllawiau cenedlaethol:

Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu gan gyfeirio at ddogfennau canlynol Llywodraeth Cymru:

- Canllawiau Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Cylchlythyr 021/2008 (Llywodraeth Cymru, 2008)
- Canllawiau Blas am Oes (Llywodraeth Cymru, 2012)
- Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) (2009)

### 3. Rhesymeg:

Mae brecwast wedi ei hen gydnabod fel pryd pwysicaf y dydd ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant sy'n cael y cyfle i fwyta brecwast iach a maethlon cyn dechrau'r diwrnod ysgol yn fwy tebygol o gyflawni eu potensial addysgol llawn. Mae profiad hefyd wedi dangos bod cynlluniau brecwast llwyddiannus mewn ysgolion wedi arwain at newidiadau cadarnhaol o ran agweddau - presenoldeb gwell, ymddygiad gwell, llai o broblemau disgyblaeth a gwell gallu i ganolbwyntio'n barhaus.

### **GWEITHREDU'R SESIWN FRECWAST**

Ysgol Carreg Emlyn sy'n darparu'r gwasanaeth yma ac mae holl bolisiau'r sy'n bodoli eisoes, yn arbennig lechyd a Diogelwch, yn cael eu dilyn.

### 4. Oriau agor:

- Mae'r sesiwn frecwast yn gweithredu yn ystod y tymor yn unig ac nid yw'n gweithredu ar ddyddiau hyfforddi staff.
- Bydd Brecwast am ddim yn cael ei gynnig rhwng 7.45 a 8.15am. Bydd tal o 50c yn cael ei godi am warchod y plant am weddill yr amser.

	<b>Amser</b>
Dydd Llun	7.45 am - 8.50am
Dydd Mawrth	7.45 am - 8.50am
Dydd Mercher	7.45 am - 8.50am
Dydd Iau	7.45 am - 8.50am
Dydd Gwener	7.45 am - 8.50am

- Caiff brechwast ond ei ganslo mewn achosion o dywydd garw neu broblemau gydag eiddo'r ysgol. Cynghorir rhieni yn unol â'r polisi cau ysgolion.

#### **5. Nifer y lleoedd sydd ar gael a derbyniadau:**

- Gall y sesiwn frechwast gymryd 24 o blant.
- Mae'r sesiwn yn gwbl gynhwysol ar gyfer plant o'r Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6.
- Gofynnir i unrhyw riant/ warcheidwad sydd â phlentyn sydd ag unrhyw anghenion ychwanegol neu arbennig i adael i'r ysgol wybod o flaen llaw. Mae hyn fel y gellir croesau unrhyw blentyn yn briodol i'r sesiwn.

#### **6. Trefniadau Archebu a Thal:**

- Rhaid i rieni archebu lle yn y Clwb Brechwast o leiaf wythnos o flaen llaw drwy lenwi'r ffurflen archebu neu gysylltu a'r ysgol.
- Mae llefydd yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.
- Y gost am fynychu'r sesiwn frechwast yw: 50c y diwrnod
- Gall rhieni dalu hwn yn wythnosol neu'n fisol o flaen llaw. Derbynnir siec yn daladwy i Ysgol Carreg Emlyn neu arian parod.
- Mae aelod o'r sesiwn frechwast yn cadw cofnod cywir o bresenoldeb a thâl ac mae hyn yn cael ei roi i ysgrifenyddes yr ysgol bob wythnos.
- Bydd cofnod yn cael ei gadw o unrhyw rieni sy'n talu ymlaen llaw fel bod hyn yn cael ei gredydu ar gyfer pryd fydd y plentyn yn mynychu nesaf.
- Bydd ysgrifenyddes yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni sydd heb dalu bob wythnos yn gofyn am daliad.

#### **7. Lleoliad y Sesiwn Frechwast:**

- Mae'r sesiwn frechwast yn cael ei chynnal yn y llefydd canlynol:  
Safle Cyffylliog - Ystafell Ginio  
Safle Clocaenog - Ystafell ddosbarth Bl 3 a 4
- Defnyddir y buarth ar y ddau safle pan fydd y tywydd yn caniatáu.
- Caiff bwyd y sesiwn frechwast ei baratoi a'i storio yn:  
Safle Cyffylliog - y gegin  
Safle Clocaenog - Ystafell ddosbarth Bl 3 a 4
- Ar adegau efallai y bydd lleoliad y sesiwn frechwast yn newid o ganlyniad i weithgareddau eraill sy'n digwydd yn yr ysgol.

#### **8. Ymddygiad:**

- Dilynir polisi ymddygiad a gwrth fwlio yr ysgol o ran ymddygiad er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer y plant yn y sesiwn frechwast.
- Os yw plentyn yn ymddwyn yn wael yn barhaus, mae'r ysgol yn cadw'r hawl i dynnu ei le yn ôl.

#### **9. Cyfathrebu â Rhieni:**

- Rydym yn hyrwyddo'r sesiwn frechwast drwy'r canlynol: prosbectws, llythyrau, ebost a Twitter.
- Rydym yn cyfathrebu newyddion am y sesiwn frechwast neu unrhyw newidiadau drwy newyddlen yr ysgol, gwefan, negeseuon e-bost a Twitter.

#### **10. Cymarebau staffio a goruchwyllo:**

- Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefniadaeth fewnol a rheolaeth a rheoli ein hysgol o ddydd i ddydd (Rheoliad 6(1) o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gorchwyl) (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2002).
- Mae hyn yn cyfeirio at, ac yn berthnasol i'r sesiwn frechwast.
- Nid yw hyn yn golygu bod angen i'n pennaeth fod ar dir yr ysgol yn ystod y sesiwn frechwast, ond mae gan staff y sesiwn frechwast rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu mewn argyfwng.

### 10.1 Staffio

- Gan fod yr ysgol yn gweithredu'r sesiwn frecwast, mae'r holl staff yn cael eu cyflogi drwy Sir Ddinbych ac yn gweithio yn ôl polisiau'r Sir a rhai'r ysgolion.

### 10.2 Hyfforddiant

- Mae gan ein staff sesiwn frecwast gymwysterau priodol i weithio yn y sesiwn frecwast. Mae hyn yn helpu i sicrhau negeseuon cyson am ein harferion iechyd ac addysgol.
- Pan fydd staff newydd yn cael eu penodi, byddwn yn sicrhau eu bod yn mynychu hyfforddiant perthnasol.
- Mae gan y staff sesiwn frecwast sy'n paratoi bwyd Dystysgrif Diogelwch Bwyd Lefel 2 cyfredol.

### 10.3 Goruchwyliaeth

- Ein cymhareb goruchwyltio yw 1 staff i 12 o blant.
- Gall lefelau staffio amrywio i ddiwallu anghenion presennol.
- Os bydd aelod o staff yn absennol, maent yn cysylltu â'r Pennaeth a fydd yn trefnu llanw.
- Os bydd datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig plentyn yn nodi cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y plentyn hwnnw, caiff hyn ei ystyried wrth recriwtio staff goruchwyltio ar gyfer y sesiwn frecwast.
- Mae'r holl staff sesiwn frecwast yn cael gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac yn ymrwymedig i hyrwyddo iechyd a lles y plant.

Caiff y sesiwn frecwast ei goruchwyltio gan:

#### Safle Cyffylliog:

Enw	Swydd	Dyletswyddau	Cymwysterau
Jill Lewis	Goruchwyltiwr	Prynu bwyd Paratoi bwyd/ rhoi bwyd I'r plant. Clirio Golchi llestri	NVQ lefel 2 - Coginio a Paratoi Bwyd NVQ lefel 2 - Hylandid Bwyd
Rhiannon Edmunds	Goruchwyltiwr	Cymeryd y gofrestr Rhoi bwyd i'r plant. Clirio Trefnu gemau/DVD	
Delyth Jones Einir Jones	Llanw		

#### Safle Clocaenog

Name	Position	Duties	Qualifications
Heather Jones	Goruchwyltiwr	Paratoi bwyd/ rhoi bwyd I'r plant. Clirio Golchi llestri	NVQ level mewn Hospitality NVQ level 2 mewn Food Safety in Catering
Kaya Ross	Goruchwyltiwr	Prynu bwyd Cymeryd y gofrestr Rhoi bwyd i'r plant. Clirio Trefnu gemau/DVD	
Bethan Petrie Einir Jones	Llanw		

### 11. Trefn:

- Defnyddir y brif fynedfa. Mae'r drws dan glo, er mwyn atal mynediad heb awdurdod i mewn i'r adeilad.
- Gweithdrefnau cofrestru; RhE /KR fsydd yn cymeryd y cofrestr
- JL/HJ sy'n paratoi'r brecwast?
- Mae'r disgyblion yn clirio'r llestri ar eu holau.
- Ar ol brecwast mae'r disgyblion yn dewis y gweithgareddau y maent am ei wneud
- Mae'r plant yn clirio ar eu holau ar ddiwedd y sesiynau chwarae
- Mae'r plant yn mynd allan i chwarae rhwng 8.35am a 8.50am.

## 12. Cynnwys Rhieni a disgyblion:

- Rydym yn annog plant i gymryd rhan yn y gwaith o redeg y sesiwn frecwast trwy glirio ar ôl eu hunain.

## 13. Gwerthuso:

- Rydym yn anfon holiadur ysgol bob blwyddyn i rieni a disgyblion ac mae hyn yn gyfle iddynt roi sylwadau am y sesiwn frecwast.

## 14. Eitemau bwyd a maint dognau:

### 14.1 Darparu bwyd:

- Mae ein hysgol wedi ymrwymo i'r Cynllun Ysgolion Iach ac mae ein bwyd yn cydymffurfio â'r canllawiau Blas am Oes.
- Mae gan blant y dewis i gael bwyd neu beidio, er eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny.
- Mae'r ffurflen gofrestru yn rhoi manylion unrhyw ofynion diet neu alergeddau penodol sydd gan blentyn.
- O bryd i'w gilydd ar gyfer achlysuron a digwyddiadau arbennig, gall yr ysgol wro o'r fwydlen uchod.
- Mae'r bwyd rydym yn ei ddarparu yn seiliedig ar 4 grŵp bwyd -
  - Diodydd neu gynnyrch llaeth;
  - Grawnfwydydd - heb fod wedi'u gorchuddio â siwgr;
  - Ffrwythau;
  - Bara
- Mae pob plentyn sy'n mynychu'r sesiwn frecwast yn cael y dewis o gael un eitem o bob un o'r pedwar grŵp bwyd (gweler y tabl).
- Mae dŵr ar gael bob amser.

Food Group	Suggested Portion Size	Suggested standard items
Milk based drinks and products	125ml or small carton	Semi-skimmed milk
Cereals - not sugar coated*	30g	Whole-wheat biscuits (1 biscuit) Cornflakes Rice based cereal Shredded wholegrain wheat biscuits Malted wheat squares Bran flakes Porridge <i>*To avoid adding sugar, children should be encouraged to use fresh fruit and dried fruit as sweeteners.</i>
Fruit	With fruit this is determined by what a child could hold in the palm of their hand or 100-125ml of juice	A selection of chopped fresh fruit or dried fruit to add to the cereals. Fruit canned in natural fruit juice. Unsweetened fruit juices.
Breads	1 slice or small roll/ bun 25g	Toast - toppings optional Note: where required a low fat polyunsaturated spread should be used and similarly a reduced sugar jam.

#### 14.2 Storio Bwyd:

- Caiff bwyd ei storio mewn cwpwrdd ac oergell dynodedig i'r sesiwn frechwast.
- Caiff stoc ei gylchdroi.

#### 15. Gweithgareddau chwarae / addysgol:

- Mae'r plant yn cael cyfle i wyllo rhaglenni CYW S4C ar y Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol ac hefyd yn cael dewis o chwarae gemau, tynnu llun a lliwio.
- Mae'r plant yn mynd allan i chwarae ar y buarth o 8.35 - 8.50am.

#### 16. Iechyd a Diogelwch:

##### 16.1 Cyfraith iechyd a diogelwch:

- Mae'r sesiwn frechwast yn dod o dan ofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 ac fel y cyfryw mae dyletswydd gyfreithiol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles gweithwyr a phobl nad ydynt yn weithwyr yn y gwaith, yn yr achos hwn plant, rhieni ac ymwelwyr sy'n mynychu'r sesiwn.

##### 16.2 Aseiad Risg:

- Yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch 1974 ac i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, cynhaliwyd aseiad risg ar gyfer gweithrediad y sesiwn frechwast a'i gofnodi yn ysgrifenedig er mwyn nodi'r risgiau i iechyd a diogelwch.
- Caiff unrhyw risgiau sylweddol eu gwerthuso a gwneir penderfyniadau i reoli'r risgiau hynny i lefel dderbyniol (bydd unrhyw gamau gofynnol neu a weithredir yn gymesur â'r lefel o risg a gyflwynir).
- Mae'r aseiad risg yn cael ei adolygu'n flynyddol neu fel a phryd y mae'r angen yn codi.

##### 16.3 Hebryngwyr Croesfannau Ysgol:

- Nid oes angen hebryngwyr croesfannau ysgol.

#### 16.4 Diogelwch Bwyd:

- O dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1995 caiff safle'r sesiwn frecwast ei harchwilio gan adran iechyd yr amgylchedd lleol. Mae'r ddeddf hon yn cwmpasu ansawdd adeiladau, diogelwch offer, storio a pharatoi bwyd, darparu dŵr ffres a chael gwared â gwastraff.
- Mae'r holl staff sy'n paratoi neu'n trin bwyd yn cael eu hyfforddi yn y Dyfarniad Diogelwch Bwyd Lefel 2.

#### 16.5 Yswiriant:

- Rhowch fanylion yma ynghylch a ydych wedi trefnu yswiriant priodol.

#### 16.6 Diogelwch tân a driliau:

- Mewn achos o dân, bydd plant a staff yn dilyn gweithdrefnau arferol yr ysgol, gan adael yr adeilad yn dawel drwy'r allanfa agosaf.
- Byddant yn ymgynnull ar iard yr ysgol mewn llinell.
- Bydd cofrestr y sesiwn ar gyfer y diwrnod yn cael ei galw a bydd yr holl enwau yn cael eu gwirio.
- Bydd llyfr arwyddo i mewn y staff hefyd yn cael ei wirio i sicrhau bod yr holl staff yn ddiogel.
- Bydd yna ymarfer tân yn unol â pholisi argyfwng, tân a gwagio'r Ysgol.

#### 16.7 Argyfyngau:

- Mae ffurflen gofrestru wedi'i chwblhau ar gyfer pob plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys manylion cyswllt mewn argyfwng.

#### 16.8 Cymorth Cyntaf:

- Pe bai angen triniaeth cymorth cyntaf, rydym yn dilyn gweithdrefnau arferol yr ysgol.
- Bydd yr holl ddamweiniau yn cael eu cofnodi gan ddilyn trefn yr ysgol.

#### 16.9 Meddyginiaeth:

- Bydd meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn unol â pholisi presennol yr ysgol ar feddyginiaeth.

#### 17. Cyllid:

- Caiff y clwb brechwast ei redeg am ddim yn ystod yr oriau o 7.45am i 8.15am. Gall unrhyw blentyn fynychu yn ystod y cyfnod hwn a chael brechwast am ddim.
- Gall rhieni hefyd ddewis dod â'u plant i'r clwb ar ôl ysgol estynedig rhwng 8.15 am a 8.50 am a bydd tâl o 50c
- Caiff y clwb brechwast ei ariannu'n llawn gan gyllideb ddirprwyedig yr ysgol o arian a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol

#### 18. Trefn Gwyno:

- Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am y sesiwn frecwast neu'r polisi hwn i'r pennaeth.

#### 19. Monitro a Gwerthuso:

- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd gan y pennaeth, neu ynghynt os yw'r angen yn codi.
- Bydd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal gyda'r staff sesiwn frecwast, staff yr ysgol, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

## Ysgolion Cynradd Sir Ddinbych

# Bwydlen Brecwast

Dylai pob plentyn sy'n mynychu sesiwn brecwast gael dewis un eitem o bob un o'r pedwar grŵp bwyd a welir isod

### Grawnfwydydd

(heb eu gorchuddio â siwgr)

Weetabix

Cornflakes

Rice Krispies


Shreddies

Shredded Wheat

Bran flakes

Porridge

Raisin Wheats




### Ffrwythau

Detholiad o ffrwythau ffres  
(cyfran plentyn = llond llaw plentyn)

NEU

100-125ml o sudd ffrwythau



### Bara

1 tafell/rôl fach (gwenith cyflawn)  
ynghyd â menyn aml-annirlawn braster isel.  
Os defnyddir jam, rhaid ei fod â llai o siwgr  
a heb fod ar gael bob dydd



### Cynhyrchion Llaeth

Llaeth hanner sgim

Dylai dŵr fod ar gael i'w yfed ar bod adeg



### Amrywiaeth

Gellir cyflwyno bwydydd eraill ar un neu ddau ddiwrnod o'r wythnos.

Er enghraifft:

Iogyrtiau;

myffins; cramwyth; bynen y grog; teisennau;  
smwddis





## Ffurflen Gofrestru CLWB BRECWAST YSGOL CARREG EMLYN

Llenwch a dychwelwch y ffurflen hon i'r ysgol os ydy eich plentyn yn mynychu'r Clwb Brechwast os gwelwch yn dda.

<b>Enw'r plentyn:</b>		
<b>Gofynion dietegol arbennig</b>		
Oes gan eich plentyn unrhyw alergedd/anallu i ddygymod/gofynion neu ddefodau crefyddol penodol ynglŷn â bwyd? (Ticiwch os gwelwch yn dda)	Oes	Nac oes
Os oes, rhowch fanylion:		
<b>Gwybodaeth arall</b>		
Nodwch unrhyw wybodaeth arall y credwch sy'n berthnasol i bresenoldeb eich plentyn yn y sesiynau brechwast.		
<b>Manylion personau cyswllt mewn argyfwng</b>		
Enw:	Rhif ffôn:	
Ei berthynas â'r plentyn:		
Enw:	Rhif ffôn:	
Ei berthynas â'r plentyn:		
Llofnod rhiant/gofalwr:	Dyddiad:	





## Asesiad Risg – Clwb Brecwast

### Breakfast Club - Risk Assessment

Asesiad Risg <i>Risk Assessment</i>	Dyddiad cwlhwyd <i>Date completed</i>	Gan bwy (person cyfrifol) Who By (responsible person)	Dyddiad Ailedrych Review Date
Digwyddiadau pob dydd yn Y Clwb Brecwast <i>Everyday occurrences in Breakfast Club</i>	Medi 2015	Einir Jones	Medi 2016

Peryglon a niwed posib a all ddigwydd <i>Significant hazards and harm which may occur</i>	Pwy fedrith gael eu niweidio? <i>Who might be harmed?</i>	Mesurau Diogelwch/ <i>Safety measures:</i> Mesurau sydd mewn lle ac a fydd yn cael eu cymeryd i leihau risg i lefel goddefol. <i>Measures that are in place and/or will be taken to reduce the risk to a tolerable level</i>
Diogelwch adeiladau'r ysgol yn wael Trais yn y gwaith <i>Poor security of school buildings Violence at work</i>	Plant/ Oedolion <i>Pupils/ staff</i>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dylid trefnu mynediad i'r sesiynau brecwast trwy brif fynedfa'r ysgol, gan y darperir system reoli mynediad er diogelwch yno.</li><li>• <i>Access to free breakfast sessions should be from the school's main entrance, as a security access control system is provided at this location.</i></li></ul>

<p>Rheolaeth diogelwch tân yn wael <i>Poor fire safety management</i></p>	<p>Plant/ Oedolion <i>Pupils/ staff</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae asesiadau risg tân presennol yr ysgol wedi eu hadolygu mewn cysylltiad â gweithredu'r sesiwn brecwast am ddim.</li> <li>• <i>Existing school fire risk assessment has been reviewed in respect of the operation of the free breakfast session.</i></li> <li>• Arddangosir hysbysiadau gweithdrefn tân yr ysgol ym mhob pwynt galwad larwm tân, ac y mhob ystafell a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau sesiwn brecwast.</li> <li>• <i>School fire action notices are displayed at all alarm call points and in all rooms used for free breakfast session activities.</i></li> <li>• Mae'r staff brecwast am ddim yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau ar gyfer gwacáu'r ysgol mewn argyfwng, ac wedi cael gwybodaeth â chyfarwyddyd ynglŷn â'r gweithdrefnau.</li> <li>• <i>Free breakfast staff are familiar with and have been given information and instruction of the schools evacuation procedures.</i></li> <li>• Cynhelir ymarferiadau gwacáu mewn argyfwng yn gyson. Cofnodir pob ymarferiad yn llyfr log diogelwch tân yr ysgol.</li> <li>• <i>Emergency evacuation drill exercises are carried out regularly. All evacuation drills are recorded in the school fire safety log book</i></li> <li>• Defnyddir y gofrestr o'r dysgwyr sy'n bresennol ar gyfer y sesiwn brecwast am ddim at y diben o gyfrif pennau yn yr ymarferiad.</li> <li>• <i>The register of pupil attendees at the free breakfast session is used at evacuation for the purposes of conducting a head count</i></li> </ul>
<p>Y ddarpariaeth Cymorth Cyntaf yn amhriodol <i>Inappropriate First Aid provision</i></p>	<p>Plant/ Oedolion <i>Pupils/ staff</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob un o'r staff brecwast am ddim yn gwybod lle mae'r cyfarpar cymorth cyntaf.</li> <li>• <i>All free breakfast staff are aware of location of the first aid kit</i></li> <li>• Mae nifer digonol ac addas o'r staff brecwast am ddim wedi cael hyfforddiant priodol mewn cymhwyster cymorth cyntaf.</li> <li>• <i>Suitable and sufficient numbers of free breakfast staff trained in appropriate first aid.</i></li> <li>• Mae llinell gyfathrebu allanol/ffôn yn y man lle cynhelir y sesiwn brecwast am ddim neu gerllaw, ac ar gael i gysylltu â'r gwasanaethau brys (h.y. ambiwlans) pe bai angen.</li> <li>• <i>An external communication link/phone is provided within or near free breakfast session area which is available for contacting the emergency services if needed (i.e. ambulance).</i></li> </ul>

<p>Dewis ystafelloedd amhriodol ar gyfer gweithgareddau brecwast am ddim <i>Inappropriate selection of rooms for free breakfast activities</i></p>	<p>Plant/ Oedolion <i>Pupils/ staff</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob ystafell a ddefnyddir ar gyfer y gweithgareddau wedi eu hystyried yn rhesymol o ran ei maint, gosodiad y dodrefn, ac ati, ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ddysgwyr a all fod yn bresennol.</li> <li>• <i>All rooms used for activities have been considered in terms of size and layout, etc., to be reasonable for the maximum possible number of learner attendees.</i></li> </ul>
<p>Defnyddio a dod i gyffyrddiad â sylweddau sy'n beryglus i iechyd. <i>Use of and exposure to substances hazardous to health</i></p>	<p>Plant / <i>pupils</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r holl gynhyrchion a ystyrir yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel, ac nid ydynt o fewn cyrraedd i ddysgwyr nac i unrhyw bersonau eraill.</li> <li>• <i>All products classified as being hazardous to health are stored securely and are not physically accessible to pupils and/or any other persons.</i></li> </ul>
<p>Defnyddio cyfarpar trydanol <i>Use of electrical equipment</i></p>	<p>Oedolion / <i>Staff</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gweithdrefnau wedi eu sefydlu yn yr ysgol (yn flynyddol ar hyn o bryd) ar gyfer profi a chynnal yr holl offer trydanol cludadwy yn gyfnodol (gan berson cymwys)</li> <li>• <i>School procedures are in place for the periodic (currently annual) testing and maintenance of all portable electrical appliances (by a competent person).</i></li> <li>• Bydd unrhyw offer trydanol a brynir o'r newydd yn cael ei ychwanegu at restr offer yr ysgol, er mwyn sicrhau y caiff ei brofi ar yr achlysur rheolaidd nesaf.</li> <li>• <i>Any newly purchased electrical equipment is added to the schools inventory to ensure it is subject to testing at the next scheduled occasion.</i></li> <li>• Mae gweithdrefnau wedi eu sefydlu yn yr ysgol ar gyfer profi a chynnal yr holl osodiadau trydanol sefydlog fesul cyfnod o ddim mwy na pum mlynedd (gan berson cymwys).</li> <li>• <i>School procedures are in place for the testing and maintenance of fixed electrical installations at periods not exceeding five years (by a competent person).</i></li> </ul>
<p>Defnyddio cegin yr ysgol (a'r cyfarpar) i baratoi bwyd <i>Use of school kitchen (and equipment) for food preparation</i></p>	<p>Oedolion / <i>staff</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hysbysir y staff brecwast am ddim nad oes hawl ganddynt i ddefnyddio'r cyfarpar cegin (h.y. cymysgwyr bwyd, offer ffrio dwfn, offer sleisio) ac mai offer brecwast am ddim (h.y. tostwyr) yn unig y caniateir iddynt eu defnyddio.</li> <li>• <i>Free breakfast staff are informed that they are not permitted to use kitchen equipment (i.e. food mixers, deep fat fryers, food slicers) and must only use free breakfast equipment (i.e. toasters).</i></li> </ul>

<p>Dim darpariaeth ar gyfer goruchwyllo rhwng diwedd y sesiwn brecwast a dechrau'r diwrnod ysgol</p> <p><i>No provision for supervision between close of free breakfast session and start of the school day</i></p>	<p>Plant / <i>pupils</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trwy dderbyn dysgwyr i'r sesiynau brecwast, mae'r ysgol yn ymgymryd â'r ddyletswydd sifil o fod <i>in loco parentis</i> (sef o ymddwyn fel rhiant rhesymol) a'r ddyletswydd o ofal mewn cyfraith gyffredin, yn ogystal â'r ddyletswydd gyfreithiol o sicrhau iechyd, diogelwch a lles personau ac eithrio cyflogeion (sef, yn yr achos hwn, y dysgwyr), i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol. Oherwydd hyn, bydd angen darparu lefel briodol o oruchwyliaeth.</li> <li>• <i>On accepting pupils into free breakfast sessions the school assumes the civil duty of being in loco parentis (acting as a reasonable parent) as well as the common law duty of care and the legal duty to ensure, so far as is reasonably practicable, the health, safety and welfare of persons other than employees (in this case pupils). As such supervision will need to be provided at appropriate levels.</i></li> <li>• Pan fo'r sesiynau brecwast yn dod i ben cyn dechrau'r diwrnod ysgol, rhaid i'r dysgwyr barhau i gael eu goruchwyllo gan nifer priodol o staff hyd nes bo'r diwrnod ysgol arferol yn cychwyn.</li> <li>• <i>Where free breakfast sessions finish before the start of the school day pupils must continue to be supervised by an appropriate number of staff until the normal school day commences.</i></li> </ul>
---	------------------------------	---

<p>Materion/amodau anniogel yn y gweithle, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- llithr, baglu, cwmpo</li> <li>- storfeydd</li> <li>- lleoedd cadw bwyd</li> <li>- gwydro</li> <li>- bysedd yn sownd</li> <li>- mynd i leoedd heb awdurdod (cypyrddau glanhawyr, storfeydd bwyd, ceginau)</li> </ul> <p><i>Unsafe workplace issues/conditions including:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- <i>slips, trips and falls</i></li> <li>- <i>storage</i></li> <li>- <i>food storage areas</i></li> <li>- <i>glazing</i></li> <li>- <i>finger trapping</i></li> <li>- <i>access to unauthorised areas (cleaners cupboards, food stores, kitchen areas)</i></li> </ul>	<p>Plant/ Oedolion <i>Pupils/ staff</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ychwanegol at arsylwi dyddiol gan staff yr ysgol, defnyddir rhestr gyfeirio i gynnal asesiad risg o adeilad a safle'r ysgol unwaith bob tymor, gan uwch-aelod o'r staff a'r llywodraethwyr.</li> <li>• <i>In addition to the daily observations of school staff a school building/site risk assessment checklist is completed termly by senior staff.</i></li> <li>• Cynhwysir ystyriaeth o'r rhannau o'r ysgol a ddefnyddir ar gyfer sesiynau brecwast. Cymerir camau priodol os canfyddir bod angen gwneud gwaith cywirow/gwella.</li> <li>• <i>This exercise considers areas of the school used for free breakfast sessions. Action is taken as appropriate where remedial work/improvement is required.</i></li> <li>• Y meysydd a gynhwysir yn benodol yn yr ymarferiad hwn yw: <ul style="list-style-type: none"> <li>- grisiau, coridorau, llwybrau y mae angen eu cadw mewn cyflwr diogel</li> <li>- ystafelloedd dosbarth, storfeydd a choridorau, y mae angen eu cadw'n lân a threfnus</li> <li>- goleuadau digonol, gan gynnwys yn y manau allanol sy'n arwain at y fynedfa i'r sesiynau brecwast,</li> <li>- gwydr mewn manau risg uchel naill ai o safon diogelwch neu wedi ei orchuddio â ffilm rhag chwilfriwio</li> <li>- gosod gardiau bysedd ar ymylon mewnol colfachau'r drysau lle mae'r risg o achosi niwed trwy ddal bysedd yn uchel (e.e. drysau toiledau a mynedfeydd)</li> <li>- cypyrddau glanhawyr/storfeydd bwyd, ac ati, i'w cadw dan glo</li> <li>- atal neu gyfyngu ar fynediad dysgwyr i'r manau lle paratoir/trinnir bwyd.</li> </ul> </li> <li>• <i>Areas specifically covered in this exercise are:</i> <ul style="list-style-type: none"> <li>- <i>stairs, corridors, paths which need to be maintained in a safe condition</i></li> <li>- <i>classroom and storage areas and corridors which need to be kept clean and in an orderly manner</i></li> <li>- <i>adequate lighting is provided which needs to include external areas leading to the free breakfast session entrance, corridors and stairwells as well as in areas used</i></li> <li>- <i>glazing in higher risk areas, which need to be filmed or be of safety standard to prevent shattering upon contact</i></li> <li>- <i>inner hinge edges of doors which present higher risks of finger trapping which need to be fitted with 'Finger guard' products to reduce the risks of injury (i.e. toilet and access doors)</i></li> <li>- <i>cleaners cupboards/food stores, etc., to be kept locked shut</i></li> <li>- <i>pupil access to food handling/preparation areas is prevented or restricted.</i></li> </ul> </li> </ul>
---	---	---

<p>Staff brechwast am ddim heb gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd <i>Breakfast staff not cleared through Disclosure and Barring Service</i></p>	<p>Plant / <i>pupils</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynnir bod gan bob oedolyn gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y caiff gychwyn gweithio.</li> <li>• <i>All adults are subject to clearance through Disclosure and Barring Service checks prior to commencement of work.</i></li> </ul>
<p>Staff brechwast yn anghyfarwydd â gweithdrefnau perthnasol yr ysgol <i>Breakfast staff unaware of applicable school procedures</i></p>	<p>Plant / <i>pupils</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarwyd polisi iechyd a diogelwch yr ysgol i adlewyrchu'r cyfrifoldebau a'r trefniadau manwl ar gyfer gweithredu sesiynau brechwast.</li> <li>• <i>The school health and safety policy was updated to reflect the detailed responsibilities and arrangements for operating free breakfast sessions.</i></li> <li>• Mae polisi'r ysgol wedi ei egluro i bob aelod o'r staff, gan gynnwys y rhai sy'n goruchwyllo'r sesiynau brechwast.</li> <li>• <i>The school policy has been communicated to all staff, including those supervising free breakfast sessions.</i></li> <li>• Darparwyd menyg tafladwy di-latecs i'r staff brechwast ar gyfer glanhau unrhyw ollyngiadau o hylifau corff.</li> <li>• <i>Breakfast staff are provided with latex- free disposable type gloves for cleaning up spillages of body fluids.</i></li> <li>• Darperir gwybodaeth i'r staff brechwast am bolisi'r ysgol ynglŷn â cheisiadau gan rieni/gofalwyr am iddynt roi meddyginiaethau i blant.</li> <li>• <i>Breakfast staff are provided with information on local school policy regarding requests for administration of medication for learners from parents/carers.</i></li> <li>• Mae gan y staff brechwast fanylion cyswllt ar gyfer rheini/gofalwyr, er mwyn cysylltu pe bai plentyn yn mynd yn sâl, ac ati, yn ystod sesiwn brechwast am ddim</li> <li>• <i>Breakfast staff are aware of contact information for parents/carers in order for communication to take place where pupils become unwell, etc., during free breakfast session activities.</i></li> </ul>
<p>Y modd y cyfathrebir gwybodaeth am ddysgwyr yn wael <i>Poor communication of pupil information</i></p>	<p>Plant / <i>pupils</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflogir nifer o'r staff brechwast yn ystod y diwrnod ysgol hefyd, ac felly maent yn adnabod y dysgwyr yn dda.</li> <li>• <i>A number of free breakfast staff are also employed during the school day and have a good knowledge of the pupils.</i></li> <li>• Mae pob un o'r staff brechwast yn gyfarwydd ag anghenion meddygol, dietegol ac ymddygiadol y dysgwyr, yn ogystal ag unrhyw anghenion arbennig eraill neu alergeddau.</li> <li>• <i>All free breakfast staff are aware of pupil medical, dietary, behavioural or other special needs, allergies.</i></li> </ul>

<p>Safonau gwael o ran hylendid bwyd <i>Poor food hygiene standards</i></p>	<p>Plant / <i>pupils</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i'r staff brechwast am ddim sy'n paratoi neu'n trin bwyd yn y categori risg isel (e.e. tost, grawnfwyd) weithredu'r egwyddorion diogelwch bwyd sylfaenol/hanfodol fel a ganlyn; a dylent hefyd gwblhau Tystysgrif Sylfaen y Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol (CIEH) mewn Hylendid Bwyd o fewn 3 mis ar ôl cychwyn.       <ul style="list-style-type: none"> <li>- Sicrhau nad yw cynhyrchion wedi mynd heibio'u dyddiad.</li> <li>- Golchi'r dwylo cyn paratoi/trin bwyd, ac yn rheolaidd yn ôl yr angen.</li> <li>- Gwisgo dillad addas.</li> <li>- Gwallt hir wedi ei glymu yn ôl.</li> <li>- Gosod gorchudd addas (o liw glas) ar unrhyw doriadau neu friwiau.</li> <li>- Dim ysmegu nac yfed wrth drin/paratoi bwyd.</li> </ul> </li> <li>• <i>Breakfast staff who prepare or handle food categorised as lower risk (i.e. toast, cereals) must apply basic/essential food safety principles as follows and should also undertake the Chartered Institute of Environmental Health (CIEH) Foundation Certificate in Food Hygiene within three months of commencement.</i> <ul style="list-style-type: none"> <li>- <i>Making sure products are within date.</i></li> <li>- <i>Washing of hands prior to preparing/handling food and regularly as and when necessary.</i></li> <li>- <i>Wearing of appropriate clothing.</i></li> <li>- <i>Long hair tied back.</i></li> <li>- <i>Covering of cuts and sores with suitable dressings (blue in colour).</i></li> <li>- <i>No smoking or drinking during food handling/preparation.</i></li> </ul> </li> </ul>
---	----------------------------------	--